

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'RPWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWDYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 26 HYDREF 2023 AM 10.00

Presennol :

Cynghorydd T Thomas – Cadeirydd

S Aspey
RM James

RM Granville
R J Smith

D T Harrison
I M Spiller

M L Hughes
G Walter

Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

P Ford

E Winstanley

Swyddogion:

Rachel Keepins
Michael Pitman

Stephen Griffiths

Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau
Democrataidd
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau

Teitl yr Adroddiad	Cymeradwyo'r Cofnodion
Penderfyniad a Wnaed	Cymeradwyo cofnodion 8 Mehefin 2023 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	26 Hydref 2023
Datgelu Buddiannau Personol neu Ragfarnol	Dim
Teitl yr Adroddiad	Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gyngorau yng Nghymru

<p>Penderfyniad a Wnaed</p>	<p>Bu'r Pwyllgor yn ystyried a nodi'r adrannau perthnasol o 'Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru' Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, a rhoddodd y sylwadau a'r argymhellion a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Argymhelliad: <p>Mynegodd yr aelodau bryderon am hyd cyfarfodydd a'r angen am seibiannau rheolaidd. Roedd cyfarfodydd craffu yn arbennig o hir. Cydnabu'r Pwyllgor y dylai pob cyfarfod ddarparu ar gyfer seibiannau addas, er enghraifft, egwyl o ddeg munud fel arfer yn cael ei roi ar ôl awr a hanner, ac egwyl o ugain i dri deg munud os oedd cyfarfod yn rhedeg am dair awr. Argymhellwyd y dylid atgoffa cadeirydd pob pwyllgor y dylent sicrhau bod digon o doriadau yn cael eu trefnu yn ystod cyfarfodydd fan fod hyn hyrwyddo cyfarfod mwy effeithiol ac mae'n hanfodol i iechyd a llesiant cyfranogwyr.</p> <ul style="list-style-type: none">• Cynigiwyd y gellid ymdrin â chyhoeddiadau Cabinet yn y Cyngor trwy adroddiad gwybodaeth o ystyried faint o amser y gall y rhain ei gymryd weithiau yng nghyfarfodydd y Cyngor ac yn enwedig lle mae agenda trwm. Gofynnwyd i hyn gael ei godi i'w drafod gan Arweinwyr Grwpiau, fodd bynnag byddai unrhyw newid i'r busnes yng nghyfarfodydd arferol y Cyngor yn gofyn am newid y Cyfansoddiad.• O ran hyfforddiant, gofynnodd yr Aelodau am ragor o gyfleoedd i ddysgu mwy am sgiliau cyflwyno ac i ymdrin â'r cyfryngau. Yn ogystal, awgrymwyd y dylid archwilio pwnc cyflwyno ac amseriad yr hyfforddiant, yn enwedig mewn perthynas â'r broses sefydlu ar gyfer aelodau newydd. Nodwyd hefyd ei bod yn anodd llywio'r safle Dysgu a Datblygu i Aelodau. Gofynnodd y Pwyllgor felly, yn ogystal â'r safle sy'n cael ei adolygu, i gyfleoedd gael eu darparu i Aelodau gyfarfod â Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd o bosibl unwaith y flwyddyn drwy'r hyfforddiant ar-lein.• Gofynnodd y Pwyllgor i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd holi'r holl Aelodau am eitemau y gallent ddymuno eu cynnwys yn y rhaglen Datblygu Aelodau yn y dyfodol.• O ran preifatrwydd aelodau, yn enwedig o ran argaeledd cyfeiriadau a rhifau ffôn i'r cyhoedd, awgrymwyd y dylid anfon e-bost at yr Aelodau, a ailadroddir yn flynyddol, i sefydlu pa wybodaeth yr oeddent am ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Hefyd gofynnwyd am ddarparu rhif Cyngor ar broffiliau Aelodau ar gyfer yr Aelodau hynny nad ydynt yn dymuno hysbysebu eu rhif personol eu hunain.• Byddai mater cymorth ymchwil i Aelodau yn destun eitem agenda ar gyfer y Pwyllgor yn y dyfodol.• O ran rôl y Cadeirydd, teimlwyd y dylai fod mwy o ryngweithio rhwng Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel y cynigir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd angen mynd i'r afael hefyd â'r mater o benodi Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu, mater nad
-----------------------------	---

	<p>yw'n cael sylw yn y Cyfansoddiad. Cytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Democraidaidd i godi hyn â'r Swyddog Monitro.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Teimlwyd bod angen cyfethol gweithwyr proffesiynol annibynnol ag arbenigedd arbennig, yn ogystal â chynrychiolwyr y Cyngor Ieuencid, i eistedd ar Bwyllgorau Craffu. • Nodwyd bod Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd wedi'i datblygu ac y byddai'n destun proses ymgynghori 12 wythnos. Byddai'r Rheolwr Gwasanaethau Democraidaidd yn ystyried a allai fod cyfle i'r Pwyllgor ystyried hyn yn eu cyfarfod nesaf ac os na fyddai, byddai'n cael ei e-bostio fel y gallai'r Aelodau gymryd rhan yn yr ymgynghoriad pe dymument. • Tynnodd Aelod sylw at y cyfyngiadau cyfansoddiadol ar y broses galw i mewn, a chytunwyd bod y Rheolwr Gwasanaethau Democraidaidd yn gwneud rhywfaint o waith ymchwil i'w adrodd yn ôl i'r pwyllgor, ar yr hyn y mae awdurdodau lleol eraill yn ei wneud mewn perthynas â'r broses.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	26 Hydref 2023
Datgelu Buddiannau Personol neu Ragfarnol	Dim

Teitl yr Adroddiad	Fframwaith Hunanwerthuso Cynorthwyo Cynghorwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Penderfyniad a Wnaed	<p>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r 'Fframwaith Hunanwerthuso Cymorth i Gynghorwyr' arfaethedig a oedd ynghlwm yn Atodiad A a chytunwyd ei fod yn arf defnyddiol i Gynghorau a Chynghorwyr a chefnogodd y cynnig i'w ddefnyddio, ac roedd Pennaeth Rhwydwaith Gwasanaethau Democraidaidd yn parhau i rannu arfer gorau. ag awdurdodau lleol eraill.</p> <p>Nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau ychwanegol i'w hadrodd yn ôl i CLILC a gofynnodd yn unig i'r Rheolwr Gwasanaethau Democraidaidd rannu'r Datganiad Amrywiaeth, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, â'r Aelodau ac ystyried ei adolygu.</p>
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	26 Hydref 2023
Datgelu Buddiannau Personol neu Ragfarnol	Dim

Teitl yr Adroddiad	Protocol Diogelwch Personol Aelodau Etholedig
Penderfyniad a Wnaed	<p>Y Pwyllgor:</p> <p>a) Ystyriwyd y Protocol Diogelwch Personol Aelodau Etholedig drafft arfaethedig a chynigiwyd bod angen i'r materion sy'n ymwneud ag etholwyr â phroblemau iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol gael eu hamlygu yn y ddogfen.</p> <p>b) Cytunwyd i argymhell i'r Cyngor llawn fod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid i ystyried a phenderfynu ar unrhyw geisiadau am ariannu mesurau diogelwch priodol lle mae Aelod mewn perygl personol neu dan fygythiad sylweddol o niwed wrth gyflawni ei rôl.</p>
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	26 Hydref 2023
Datgelu Buddiannau Personol neu Ragfarnol	Dim

Teitl yr Adroddiad	Adolygiad Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad
Penderfyniad a Wnaed	<p>Bu'r Pwyllgor yn ystyried a thrafod y newidiadau arfaethedig i'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad sydd ynghlwm yn Atodiad A cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn a gwnaeth y sylwadau a'r argymhellion a ganlyn:</p> <p>Argymhellion :</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd yr aelodau'n gefnogol iawn i gadw camerâu ymlaen mewn cyfarfodydd. Roedd hyn yn arbennig o wir pan ddaeth yn fater o gyfrannu at drafodaethau a chyfarfodydd pwysig yn ymwneud â phleidleisiau. Roedd hwn yn fater o dryloywder ac atebolrwydd. Argymhellodd y Pwyllgor felly, i gefnogi'r polisi, fod camerâu'n aros ymlaen ar gyfer pob cyfarfod ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae problemau rhwydwaith o bosibl, â hysbysiad a chytundeb o hyn gyda'r Cadeirydd. Lle bo materion rhwydwaith yn gyson ar gyfer Aelod unigol, nodwyd y byddai darparu cymorth TGCh ychwanegol yn cael ei ystyried.

	<ul style="list-style-type: none"> Bu'r Pwyllgor yn trafod yn fyr natur hyblyg cyfarfodydd hybrid ac a allai rhai pwyllgorau fynd yn gwbl o bell mewn rhai achosion ac roedd yn cefnogi'n fras yr arfer a ddilynir gan Rondda Cynon Taf, lle gofynnwyd i'r Aelodau ymlaen llaw a fyddent yn mynychu cyfarfod yn bersonol neu o bell. Cytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Democraataidd i ymchwilio i ddulliau awdurdodau lleol eraill ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor i'w hystyried.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	26 Hydref 2023
Datgelu Buddiannau Personol neu Ragfarnol	Dim

Teitl yr Adroddiad	Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Tâl Annibynnol i Gymru 2024/25
Penderfyniad a Wnaed	<p>Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad.</p> <p>Argymhelliad:</p> <p>Roedd yr aelodau o'r farn y dylai rôl Cadeirydd y Gwasanaethau Democraataidd gael ei chydabod a'i thalu mewn rhyw ffordd. Argymhellodd y Pwyllgor felly fod hyn yn cael ei ystyried yng Nghyfarfod Blynyddol nesaf y Cyngor ac ar ben hynny darparodd yr ymateb a ganlyn mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol Drafft IRPW 2024-25:</p> <p>Cynigiodd y Pwyllgor fod y Panel yn ystyried y potensial i gynghorau roi taliadau pro rata i gadeiryddion nad ydynt yn cael hawl i Uwch Gyflog sy'n ddigonol i alluogi'r aelodau hynny i gyflawni eu rôl yn effeithiol tra'n derbyn y gallai trefniadau o'r fath amrywio o gyngor i gyngor.</p> <p>Cymeradwyodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno ymateb y Pwyllgor i'r IRPW a CLILC erbyn y dyddiad cau, sef 8 Rhagfyr 2023.</p>
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	26 Hydref 2023
Datgelu Buddiannau Personol neu Ragfarnol	Datganodd y Cynghorydd T Thomas fuddiant sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod ar gyfer y rhan o'r drafodaeth a oedd yn ymwneud â thâl Cadeirydd y pwyllgor hwn.

Teitl yr Adroddiad	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Diweddariad Gweithgor Porth Cyngorwyr
Penderfyniad a Wnaed	<p>Y Pwyllgor:</p> <p>a) Nodwyd y diweddariad a ddarparwyd yn yr adroddiad ar waith Gweithgor Porth Cyngorwyr Gwasanaethau Democrataidd.</p> <p>b) Ystyriwyd argymhellion y Gweithgor yn 3.2 a 3.3 o'r adroddiad a'r goblygiadau ariannol ynddo.</p> <p>Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"> o ystyried y cyfyngiadau ariannol wrth symud ymlaen, roedd angen mynd i'r afael â'r hyn a allai fynd ymlaen yn realistig o ran y Porth. bod angen mynd i'r afael â mater atgyfeiriadau, yn enwedig prydlondeb ymatebion.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	26 Hydref 2023
Datgelu Buddiannau Personol neu Ragfarnol	Dim

Teitl yr Adroddiad	Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Penderfyniad a Wnaed	<p>Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r Rhaglen Waith Gychwynnol ddrafft arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sydd ynghlwm yn Atodiad A.</p> <p>Nodwyd y byddai'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn diwygio'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol i gymryd i ystyriaeth y materion a drafodwyd yn ystod y cyfarfod.</p>
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	26 Hydref 2023
Datgelu Buddiannau Personol neu Ragfarnol	Dim

Teitl yr Adroddiad	Eitemau Brys
Penderfyniad a Wnaed	Dim
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	26 Hydref 2023
Datgelu Buddiannau Personol neu Ragfarnol	Dim